Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800

MAE PLANT YN BWYSIG
CHILDREN MATTER

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Hydref 22ain 2019

Annwyl Bwyllgor Menywod a Chydraddoldebau,

Ysgrifennaf atoch ar ran Cymorth i Fenywod Cymru mewn ymateb i'ch ymchwiliad i buteindra.

Croesawn yr ymchwiliad hwn i buteindra a gobeithiwn y bydd yn arwain at newidiadau hanfodol, gwell gwarchodaeth i fenywod a phlant sy'n cael eu hecsbloetio drwy'r diwydiant rhyw a chosbau i ddynion sy'n prynu ac yn masnachu menywod a phlant.

Fel aelod o Glymblaid Dileu Trais yn erbyn Menywod, cefnogwn eu hymateb llawn a manwl i'r ymchwiliad hwn. Yn benodol, gwnawn y sylwadau canlynol;

- Rydym yn gosod puteindra a gwerthu a phrynu rhyw o fewn fframwaith trais yn erbyn menywod a merched a chamfanteisio ar anghydraddoldeb - fel y dywed Clymblaid Dileu Trais yn erbyn Menywod yn eu hymateb; *'Ystyriwn fod y ddealltwriaeth o'r system buteindra fel un sy'n cynnwys 'gwerthu a phrynu rhyw cydsyniol rhwng dau oedolyn' yn rhagosodiad diffygiol. Nid yw puteindra yn fyrdd o weithredoedd rhyw masnachol unigol. Mae'n ddiwydiant hynod drefnus, a realiti'r diwydiant hwnnw yn fyd-eang yw mai dynion yw mwyafrif llethol y rheini sy'n prynu gweithredoedd rhywiol, ac mai menywod a merched yw'r rheini y mae eu cyrff yn cael eu prynu. Nid yw'n gyfnewid rhwng 'unigolion sydd yn yr un sefyllfa ac sy'n gwneud dewisiadau cydategol: y naill i brynu rhyw a'r llall i'w werthu'*
- Cefnogwn fframwaith deddfwriaethol sy'n 'galw am ddileu', neu Fodel Nordig o ymdrin â phuteindra
- Rydym am weld gwerthu rhyw yn cael ei ddad-droseddoli ac erlyniadau cadarnach ar gyfer prynwyr, pimpiaid a'r rheini sy'n camfanteisio yng nghyd-destun puteindra
- Cefnogwn weithredu ledled Ewrop Alwad Brwsel am ddileu puteindra ar draws Ewrop, a'r Model Cydraddoldeb sy'n cydnabod yr anghydraddoldeb grym a braint sydd wrth wraidd y diwydiant rhyw.

Llywiwyd y pwyntiau hyn gan aelodau Cymorth i Ferched Cymru sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda menywod sy'n cael eu hecsbloetio drwy'r diwydiant rhyw.

Croesawn y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad pwysig hwn ac rydym ar gael i drafod y pwyntiau a godwyd yma neu i drafod yn fwy cyffredinol ynghylch camfanteisio drwy'r diwydiant rhyw, pe bai hynny o gymorth.

Yn gywir,

Elinor Crouch-Puzey

Swyddog Polisi ac Ymchwil

Violence against Women Centre of Excellence | Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Email: tinareece@welshwomensaid.org.uk | Social: @welshwomensaid
Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962